

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	19 Hydref 2023
<b>Swyddog / Aelod Arweiniol</b>	Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd
<b>Teitl</b>	Adolygu prisiau ac oriau gweithredol meysydd parcio

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn egluro'r cynnydd arfaethedig mewn prisiau ym meysydd parcio'r Cyngor, newidiadau i gyfnodau codi tâl yn y meysydd parcio a'r posibilrwydd o gyflwyno ffioedd mewn rhai meysydd parcio sydd am ddim ar hyn o bryd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi dealltwriaeth fanwl i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau o'r newidiadau a gynigir a'r rhesymeg y tu ôl i'r newidiadau hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau am y cynnydd arfaethedig yn y prisiau parcio a'r newidiadau eraill a gynigir.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

4.1. Mae'r Cyngor yn gweithredu 47 maes parcio cyhoeddus ac mae 40 o'r rhain yn feysydd parcio talu ac arddangos.

- 4.2. Cafodd ein prisiau parcio eu cynyddu ddiwethaf ym mis Ebrill 2016. Yn ôl ffigurau *Mynegai Prisiau Defnyddwyr* Banc Lloegr, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae cost nwyddau a gwasanaethau yn y DU wedi codi 31% yn sgil chwyddiant. Erbyn mis Ebrill 2024, rhagwelir y bydd hyn wedi cynyddu i bron i 35% uwchben lefelau Ebrill 2016.
- 4.3. Rydym wedi gwrthsefyll y costau cynyddol hyn ers peth amser, ond mae angen i ni bellach gynyddu ein prisiau parcio. Er bod Banc Lloegr yn rhagweld y bydd chwyddiant yn gostwng i 5% erbyn 2024, bydd angen i ni gyflwyno elfen o “ddiogelu ar gyfer y dyfodol” wrth bennu prisiau arfaethedig ein meysydd parcio er mwyn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant yn y dyfodol. Rhaid gwneud hyn am nad ydym ond yn cynyddu ein ffioedd bob ychydig o flynyddoedd fel arfer, oherwydd cost ail-raglennu ein peiriannau talu ac arddangos, newid arwyddion meysydd parcio a chostau cyfreithiol. Ar y cyfan, mae’r costau hyn yn cyrraedd cyfanswm o tua £15,000. Rhestrir prisiau newydd arfaethedig y meysydd parcio yn Atodiad A.
- 4.4. Mae’r pris rydym yn ei godi yn ein meysydd parcio yn dibynnu ar y math o faes parcio. Mae ein meysydd parcio wedi’u dynodi’n rhai “Arhosiad Byr”, “Arhosiad Hir” neu “Traeth”. Mae’r gwahanol brisiau ar gyfer pob math o faes parcio yr un fath, waeth ym mha dref y mae’r maes parcio. Bu i ni ystyried tybed a ddylai’r prisiau amrywio rhwng trefi, ond cafodd hyn ei ddiystyru ar y sail na chafodd cynnig tebyg gefnogaeth gan yr aelodau etholedig pan gafodd ei drafod yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn y cyfnod cyn cynyddu prisiau’r meysydd parcio ym mis Ebrill 2016.
- 4.5. Wrth ystyried cynyddu’r prisiau parcio, rydym wedi ystyried y prisiau y mae Cynghorau Sir eraill Gogledd Cymru yn eu codi, a’r chwyddiant rhwng 2016 a 2023, gan gynnwys lwfans “diogelu ar gyfer y dyfodol” ar gyfer lefelau chwyddiant uchel parhaus. Mae gwybodaeth am y prisiau parcio y mae Cynghorau eraill Gogledd Cymru yn eu codi i’w gweld yn Atodiad B. Er nad yw wedi’i adlewyrchu yn ffigurau awdurdodau eraill Gogledd Cymru, mae’n debygol y bydd rhai ohonynt hwythau yn ystyried codi’r prisiau ymhellach ym mis Ebrill 2024.
- 4.6. Cafodd prisiau ein Meysydd Parcio eu cynyddu ddiwethaf ym mis Ebrill 2016, ac ym mis Ebrill 2009 cyn hynny. Roedd cynnydd Ebrill 2016 yn cynnwys

ymrwymiad i gynyddu buddsoddiad yn ein meysydd parcio, yn dilyn blynyddoedd o fuddsoddiad annigonol. Rheolwyd y buddsoddiad hwnnw drwy gyflwyno Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio, ac rydym wedi gwario'n sylweddol ar seilwaith ein meysydd parcio ers 2016. Rydym yn cynnig datblygu Cynllun Buddsoddi tebyg ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd o Ebrill 2024 ymlaen.

- 4.7. Mae prisiau ein meysydd parcio'n weithredol rhwng 8am a 5pm ar hyn o bryd. Cynigir ein bod yn ymestyn y cyfnod hwn fel bod angen talu rhwng 8am ac 11pm. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu bod ein meysydd parcio yn asedau sy'n cael eu defnyddio am fwy na dim ond 9 awr y diwrnod, a bod angen eu cynnal a chadw. Nid yw talu am barcio gyda'r nos yn anarferol yn siroedd eraill Gogledd Cymru a thu hwnt, gweler Atodiad B. Mae ffioedd parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn weithredol 24 awr y diwrnod, ond gyda chyfraddau rhatach dros nos (rhwng 6pm ac 8am). Ar Ynys Môn, mae'r ffioedd llawn yn weithredol rhwng 8am ac 8pm. Yng Ngwynedd, mae ffioedd 24 awr yn weithredol yn 37 o'u 59 maes parcio talu ac arddangos, ac mae angen talu rhwng 10am a 4.30pm yn y 22 maes parcio arall. Yn Sir y Fflint, mae'r ffioedd yn weithredol rhwng 9am a 5pm. Yn Wrecsam, mae menter yn cael ei chynnal sy'n cynnig parcio am ddim ar ôl 11am (h.y. mae angen talu rhwng 8am ac 11am).
- 4.8. Gallai codi tâl am barcio gyda'r nos arwain at wrthwynebiad gan rai trigolion lleol sy'n defnyddio'r meysydd parcio i barcio dros nos ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall trigolion ddewis prynu trwydded barcio Arhosiad Hir, sy'n costio £120 y flwyddyn ar hyn o bryd, er y cynigir codi'r pris hwnnw fel y manylir ym mharagraff 4.10. Bydd unigolion dros 60 oed yn parhau i allu prynu trwydded ratach, sy'n costio ychydig dros hanner pris trwydded Arhosiad Hir safonol.
- 4.9. Mae gennym ni nifer fechan o feysydd parcio cyhoeddus y gellir eu defnyddio am ddim. Rydym wrthi'n adolygu a oes yna achos i gyflwyno ffioedd yn rhai, neu bob un o'r meysydd parcio am ddim hyn. Mae rhestr o'r meysydd parcio am ddim i'w gweld yn Atodiad C.
- 4.10. Cynigir cynyddu pris trwyddedau parcio fel y manylir yn Atodiad D. Mae Atodiad D hefyd yn dangos bod pris ein trwydded ni yn rhad iawn o'i gymharu ag awdurdodau cyfagos. Arhosodd prisiau ein trwyddedau yr un fath o 2009 tan ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol, ac mae hyn yn amlwg o weld pa mor rhad ydyn nhw o'u cymharu ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

4.11. Rydym yn bwriadu parhau i gynnig ein hamrywiol fentrau parcio am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys parcio am ddim ar ôl 3pm ym mhob un o'n meysydd parcio talu ac arddangos canol tref o ddiwedd Tachwedd tan 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Bydd yr ychydig fannau parcio am ddim am gyfnodau byr sydd i'w gweld yn rhai o'n meysydd parcio talu ac arddangos hefyd yn parhau. Yn olaf, byddwn yn parhau i gynnig 5 diwrnod parcio am ddim bob blwyddyn ym mhob Dinas, Tref a Phentref y mae gennym ni feysydd parcio talu ac arddangos ynddyn nhw. Y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned perthnasol sy'n dewis pryd i ddefnyddio eu 5 diwrnod am ddim.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid yw'r cynigion yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol ar y cyfan, ar wahân i rai buddion yn sgil defnyddio llai o ynni mewn meysydd parcio.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Bydd cynyddu prisiau meysydd parcio yn costio tua £15,000 oherwydd cost ail-raglennu peiriannau talu'r meysydd parcio, newid arwyddion a chostau cyfreithiol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Bydd Asesiad cynhwysfawr o Effaith ar Les yn cael ei gynnal cyn i'r Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad wneud penderfyniad, er mwyn ei helpu i ddod i'r penderfyniad hwnnw.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Y gofyniad statudol ar gyfer newid prisiau meysydd parcio ac ymestyn cyfnodau codi tâl yw bod rhaid gosod hysbysiad cyhoeddus ym mhob maes parcio ac mewn papur newydd lleol, sy'n dangos y ffioedd presennol a'r ffioedd arfaethedig.

8.2. Mae angen Gorchymyn Traffig a elwir yn Orchymyn Parcio oddi ar y Stryd er mwyn cyflwyno ffioedd mewn meysydd parcio a oedd yn arfer bod am ddim.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Mae'r polisi ffioedd a thaliadau'n nodi y dylid eu hadolygu'n flynyddol pan fo hynny'n ymarferol er mwyn cwrdd â'r pwysau chwyddiant y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Cydnabyddir nad yw hynny bob amser yn bosib a bod angen cynnal adolygiadau cyfnodol weithiau. Mae'n dda bod hyn wedi'i wneud ar adeg pan fo'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol a chyfyngiadau cyllido difrifol. Caiff y cynigion yn yr adroddiad hwn eu cefnogi'n llawn.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Y risg fwyaf fydd gwrthwynebiad gan drigolion a siopwyr canol tref. Bydd angen cyfathrebu'n glir pam fod angen gwneud y newidiadau.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Paragraff 8.50 Atodiad 3 i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor.

11.2. Adran 35C Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Rheoliad 25 Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996.